



Dyddiad creu: 23/09/20  
Dyddiad cyhoeddi: 25/09/20  
Rhif y fersiwn: 1.00

---

<b>Maes Gwasanaeth:</b>	Cymunedau
<b>Maes Gwaith:</b>	Gwasanaethau Chwaraeon a Hamdden
<b>Manylion cyswllt:</b>	01443 863072 hamdden@caerffili.gov.uk
<b>Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:</b>	COVID-19 – Menter Gwent Egniol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili)
<b>Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:</b>	Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn egluro sut y gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili rannu neu dderbyn eich gwybodaeth o dan y Fenter Gwent Egniol.

## Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

### Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

#### Diben y gwaith prosesu

Oherwydd y cyfyngiadau symud lleol oherwydd COVID-19 yng Nghymru, ar hyn o bryd, ni all unigolion deithio ar draws ffiniau sirol i ddefnyddio campfeydd/cyfleusterau hamdden, os:

- yw'r unigolyn yn byw mewn sir sydd o dan gyfyngiadau symud lleol oherwydd COVID-19, neu
- mae'r campfeydd/cyfleusterau hamdden mewn sir sydd o dan gyfyngiadau symud lleol oherwydd COVID-19.

Ni fu pwysigrwydd gweithgareddau corfforol erioed yn bwysicach, ac felly mae'r darparwyr canlynol ar draws Gwent wedi partneru i ganiatáu, dros dro, i aelodau ddefnyddio campfeydd/cyfleusterau hamdden lleol a ddarperir gan un o'r partneriaid tra bo'r cyfyngiadau symud lleol yn parhau ar waith, gan ddefnyddio'r aelodaeth bresennol i gampfeydd/cyfleusterau hamdden.

- Hamdden Aneurin (Blaenau Gwent)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Gwasanaethau Chwaraeon a Hamdden
- MonLife (Sir Fynwy)
- Casnewydd Fyw
- Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen

Bydd y fenter newydd hon, o'r enw Gwent Egniol, ar gael tan 31 Hydref 2020 i ddechrau ac yn cael ei hadolygu yn dilyn diweddariadau Llywodraeth Cymru. Bydd aelodau'n parhau i fod yn aelodau o'u darparwr campfeydd/cyfleusterau hamdden arferol a phan godir y cyfyngiadau symud lleol, byddant yn gallu dychwelyd i'w cyfleusterau arferol.

Bydd eu darparwr campfeydd/cyfleusterau hamdden arferol yn cysylltu ag aelodau sy'n gymwys ar gyfer y fenter hon gyda rhagor o fanylion am sut i gael mynediad at gampfeydd/cyfleusterau hamdden lleol. Er mwyn gweinyddu'r fenter hon a chael mynediad at gampfeydd/cyfleusterau hamdden ychwanegol, bydd angen i'r darparwr arferol rannu gwybodaeth mewn perthynas ag aelod y gampfa/cyfeuster hamdden – os yw'n gymwys ar gyfer y fenter hon – â'r ddarparwr campfeydd/cyfleusterau hamdden lleol.

### **Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu**

Rydym yn rhannu/cael eich gwybodaeth gyda'ch caniatâd.

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o erthygl 6 o'r Rheoliad, a amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

Erthygl 6(1)(a) the data subject has given consent to the processing of his or her personal data for one or more specific purposes;

## **Y ffynhonnell a'r math o wybodaeth a brosesir**

### **Categoriâu o ddata personol**

- Enw
- Cyfeiriad cartref
- Manylion cyswllt (e-bost a rhif ffôn)
- Dyddiad geni
- Math o aelodaeth (pwll/campfa, ac ati)

Bydd eich gwybodaeth y manylir arni uchod yn cael ei rhannu gan eich darparwr campfeydd/cyfleusterau hamdden arferol (o blith y darparwyr hynny y manylir arnynt uchod) â'ch darparwr campfeydd/cyfleusterau hamdden lleol (o blith y rhai y manylir arnynt uchod).

## **Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth?**

### **Manylion y Rheolydd Data a'r Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones  
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data  
E-bost: [DiogeluData@caerffili.gov.uk](mailto:DiogeluData@caerffili.gov.uk)  
Ffôn: 01443 864322

Os bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu â darparwr arall o dan y Fenter Gwent Egnïol, y darparwr fydd y Rheolydd mewn perthynas â'ch gwybodaeth sydd wedi'i rhannu.

### **Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth**

Gwasanaethau Chwaraeon a Hamdden Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Fel uchod, os bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu â darparwr arall o dan y Fenter Gwent Egnïol, y darparwr fydd y Rheolydd mewn perthynas â'ch gwybodaeth sydd wedi'i rhannu.

Bydd aelodau'n parhau i fod yn aelodau o'u darparwr campfeydd /cyfleusterau hamdden arferol, a phan godir y cyfyngiadau symud lleol, byddant yn gallu dychwelyd i'w cyfleusterau arferol.

### **Ceisiadau am wybodaeth**

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hól, os bydd y deddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## **Pa mor hir byddwn yn cadw'ch gwybodaeth**

### **Manylion am y cyfnod cadw**

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Os trosglwyddir eich aelodaeth i ni dros dro, cedwir eich manylion am 7 mlynedd.

Os trosglwyddir eich aelodaeth oddi wrthym, bydd eich gwybodaeth yn yn ddarostyngedig i gyfnodau cadw eich darparwr campfeydd/cyfleusterau hamdden lleol. Gellir cael rhagor o fanylion am gadw data a materion eraill gan y darparwr dan sylw.

Blaenau Gwent – Hamdden Aneurin [aneurinleisure.org.uk](http://aneurinleisure.org.uk)

Sir Fynwy – MonLife – [www.monlife.co.uk/cy](http://www.monlife.co.uk/cy)

Caenewydd – Casnewydd Fyw – [www.newportlive.co.uk/cy](http://www.newportlive.co.uk/cy)

Torfaen – Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen – [torfaenleisuretrust.co.uk](http://torfaenleisuretrust.co.uk)

## **Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)**

### **Eich hawliau dan gyfraith Diogelu Data**

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: [Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun \(SAR\)](#)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)

Er mwyn arfer eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

### **Y Weithdrefn Gwyno**

Os ydych yn anfonlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth a fanylir ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich materion.

Os byddwch yn parhau'n anfonlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Am ragor o wybodaeth am y broses gwyno, dilynwch y ddolen hon.

[www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb](http://www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb)

---

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

---

## Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Os ydych chi'n gymwys ar gyfer y Fenter Gwent Egniol, gyda'ch caniatâd, bydd eich manylion (enw, cyfeiriad cartref, manylion cyswllt, dyddiad geni a'r math o aelodaeth) yn cael eu rhannu â'r partner perthnasol er mwyn i chi gael mynediad at ei gyfleusterau yn ystod y cyfyngiadau symud lleol cyfredol oherwydd COVID-19 yng Nghymru. O ran rhannu data, y sefydliad sy'n eu derbyn fydd y rheolydd mewn perthynas â hyn. I gael rhagor o wybodaeth am sut y bydd yn defnyddio'ch data, cysylltwch â'r sefydliad hwnnw.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym ni (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili) yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, cliciwch y ddolen ganlynol:

[{Hyperddolen i'r Hysbysiad Preifatrwydd Llawn ar ein gwefan}](#)